



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol **Yr Athrofa**
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

ADY: Cefnogi
Disgyblion ag
Anawsterau
Corfforol a
Meddygol



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol **Yr Athrofa**
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Nodau

Ystyried y gofynion statudol ar gyfer cynnwys disgyblion ag ADY mewn ysgolion a'r Rhaglen Trawsnewid ADY yng Nghymru

Trafod pwysigrwydd parchu cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth gynllunio a chefnogi dysgu

Archwilio rhai o'r anawsterau corfforol a meddygol sydd gan blant a'r rhwystrau i ddysgu sydd yn eu gwynebu



Diffinio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

- ‘os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol’
- (a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.
- Os yw'r iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd person yn cael ei addysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael neu sydd wedi cael ei defnyddio gartref, nid yw hynny'n unig yn golygu bod gan y person anhawster dysgu neu anabledd.

(Llywodraeth Cymru, 2021, t. 22)

Y Rhaglen Trawsnewid ADY i Gymru



DARLEN PELLACH:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ady-cwestiynau-cyffredin-2.pdf>

ADY - Datblygiadau allweddol yng Nghymru

Bil ADY Cymru - newidiadau allweddol

@ImpactWales



Mae ADY yn disodli'r termau AAA ac AAD er mwyn aiffocysu ar ddisgwyliadau a phrofiadau'r rhai a gefnogir sydd ag ADY.



Fe ddylai'r drefn gynllunio newydd symleiddio'r gweithdrefnau gynllunio cyfredol.



Bydd pawb sy'n ymwneud â chefnogi ADY o 0-25 yn awr yn gweithio ar sail yr un fframwaith deddfwriaethol.



Disgwilir i bob asiantaeth sy'n cefnogi ADY gydweithio'n agosach.



Mae'r fformat CDU unedig newydd yn darparu parhad o enedigaeth hyd at 25 oed.



Bydd anghytundebah'n cael eu datrys ar y lefel mwyaf lleol bosibol.



Bydd cynllunio ar gyfer ADY yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chaiff ei wneud gyda'r plentyn neu'r person ifanc.



Mae'r hawl i apelio'n eglur a chyson i lawb.



Bydd y CDU newydd yn canolbwyntio ar gamau gweladwy er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn potensial.



Bydd y Cod ADY newydd yn darparu ffiniau statudol, eglur y mae modd eu gorfodi ar lefel gyfreithiol.

Ymagwedd Ddwyieithog - Lle do'n bosib, os gofynnir am wasanaethau'n yn Gymraeg, byddant yn cael eu darparu'n y Gymraeg.

(www.impact.wales, 2019)

Beth yw
cynhwysiant a
chydraaddoldeb?

Sut fydddech
chi'n
diffinio'r
rhain?

Cynhwysiant a chydoddoldeb

Senario 1

- Mae 2A yn cynnal parti diwedd tymor yn yr Undeb. Rydych chi wedi derbyn gwahoddiad ac mae sawl un o'r grŵp wedi cysylltu i ofyn a ydych chi'n bwriadu mynd.
- Sut ydych chi'n teimlo?
- Pa fath o deimladau yw'r rhain?

Senario 2

- Mae 2A yn cynnal parti diwedd tymor yn yr Undeb. Dydych chi ddim wedi cael gwahoddiad a does neb o'r grŵp wedi cysylltu i ofyn a ydych chi'n bwriadu mynd.
- Sut ydych chi'n teimlo nawr?
- Ydy'r teimladau hyn yn wahanol i'r teimladau yn Senario 1?
- Pam?

MEDDYLIWCH: Sut allech chi drosglwyddo hyn i gyd-destun bywyd ysgol o safbwynt plentyn ag anabledd? Ysgrifennwch 2-3 brawddeg o senario ar gyfer sefyllfa mewn dosbarth.

Beth allech chi wneud fel athro/athrawes i sicrhau bod y plentyn yn cael ei gynnwys?



Beth yw cynhwysiant?

Sut allwn ni hyrwyddo cynhwysiant?




Mae gan Bethan nam ar ei chlyw ac mae'n cyfathrebu trwy iaith arwyddo. Yn lle tynnu Bethan o'i hystafell ddosbarth i gael gwersi ar ei phen ei hun gyda'i chynorthwyydd, mae'r athro dosbarth yn ...?

Pa mor gynhwysol ydyn ni?

- Cred 38% o bobl fod pobl ag anableddau yn faich ar gymdeithas
- Dywedodd 45% o bobl ag anableddau iddynt gael problemau yn yr ysgol oherwydd eu nam
- Cyfaddefodd bron dwy ran o dair o bobl (65%) eu bod yn osgoi pobl anabl oherwydd nad ydyn nhw'n gwybod sut i ymddwyn yn eu cwmni
- Tybia mwy na hanner (52%) mai mater corfforol yn unig yw anableddau
- Mae mwy na thraean (34%) yn credu nad yw colli clyw yn anabledd
- Pobl a nam ar y clyw neu'r llygaid yw'r cyfranogwyr prinnaf mewn chwaraeon, ac mae 72.1% o bobl anabl heb fod yn cymryd rhan o gwbl mewn gweithgarwch corfforol
- Mae 18% o boblogaeth y DU yn anabl a mwyafrif yr anableddau yn anweladwy
- Mae 6% o'r boblogaeth o dan 16 oed yn anabl. Yn Lloegr mae 83% o'r holl blant anabl yn mynychu ysgol prif ffrwd.
- Mae oedolion ag anableddau ddwywaith yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau ffurfiol nag oedolion heb anableddau - 26% a 12% yn eu trefn
- Yn 26 oed, mae pobl ag anableddau bron bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith neu allan o waith o'u hanfodd na phobl heb anableddau.
- Mae cyfraddau cyflogaeth graddedigion yn llawer is i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn


<http://www.activityalliance.org.uk/how-we-help/fact-and-statistics>



Y gofynion statudol

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1991)
- Datganiad Salamanca UNESCO (1994)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (2008)
- Deddf Cydraddoldeb (2010)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011)
- Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)
- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021)

Cyfiawnder nid cydraddoldeb



REALITY

REALITI

EQUALITY

CYDRADDOLDEB

EQUITY

TEGWCH

JUSTICE


**CYFIAWNDER/
PERTHYN**

Anawsterau Meddygol a Chorfforol

Rhestrwch yr anawsterau meddygol a chorfforol rydych chi'n gyfarwydd â nhw, gan nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol perthnasol.

Tybed a oedd unrhyw ddysgwyr ag anawsterau meddygol a chorfforol yn eich dosbarth chi yn ystod PAP2?

A wnaethoch chi feddwl am rhain?



Oes rhai anawsterau anghyfarwydd yma? Os felly beth am ymchwilio am wybodaeth bellach amdanynt?

4 o Feysydd Angen (Llywodraeth Cymru, 2021)

Cyfathrebu a
rhyngweithio
*(Communication and
interaction)*

Gwybyddiaeth a dysgu
(Cognition and learning)

Ymddygiad a datblygiad
emosiynol a
chymdeithasol
*(Behaviour, emotional
and social development)*

Synhwyraidd a/neu
corfforol
(Sensory and/or physical)

Rhai ffeithiau am Syndrom Down (o'r Down's Syndrome Association)

- Syndrom Down yw'r math mwyaf cyffredin o anabledd dysgu – tua 1 o bob 1,000 o enedigaethau byw y flwyddyn.
- Mae'n cael ei achosi gan bresenoldeb cromosom ychwanegol. Yn lle'r 46 cromosom arferol, mae gan berson â Syndrom Down 47.
- Bydd gan bob plentyn â Syndrom Down rywffaint o anhawster dysgu, er y bydd hyn yn amrywio o ysgafn i ddifrifol.
- Er mai ffactorau genetig sy'n gyfrifol am Syndrom Down, mae ffactorau amgylcheddol yn chwarae rhan bwysig mewn datblygiad fel gydag unrhyw blentyn.
- Mae plant â Syndrom Down yn amrywio mor eang yn eu datblygiad a'u cynnydd â phlant sy'n datblygu'n nodweddiadol.
- Yn gyffredinol, mae plant â Syndrom Down yn datblygu'n arafach na'u cyfoedion, gan gyrraedd pob cam o'u datblygiad yn hwyrach ac aros yno'n hirach. Mae'r bwlch datblygiadol rhwng plant â Syndrom Down a'u cyfoedion felly yn ehangu gydag oedran.

[DSI Education Guidelines](https://uowtsd-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/m_bowen_uwtsd_ac_uk/ERD-u8GdJetCiCKs413x-m8BsnUPNp4ANbpaoWlr7AFytw?e=NE4aES)

[https://uowtsd-](https://uowtsd-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/m_bowen_uwtsd_ac_uk/ERD-u8GdJetCiCKs413x-m8BsnUPNp4ANbpaoWlr7AFytw?e=NE4aES)

[my.sharepoint.com/:b:/g/personal/m_bowen_uwtsd](https://uowtsd-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/m_bowen_uwtsd_ac_uk/ERD-u8GdJetCiCKs413x-m8BsnUPNp4ANbpaoWlr7AFytw?e=NE4aES)

[_ac_uk/ERD-u8GdJetCiCKs413x-](https://uowtsd-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/m_bowen_uwtsd_ac_uk/ERD-u8GdJetCiCKs413x-m8BsnUPNp4ANbpaoWlr7AFytw?e=NE4aES)

[m8BsnUPNp4ANbpaoWlr7AFytw?e=NE4aES](https://uowtsd-my.sharepoint.com/:b:/g/personal/m_bowen_uwtsd_ac_uk/ERD-u8GdJetCiCKs413x-m8BsnUPNp4ANbpaoWlr7AFytw?e=NE4aES)



Dyspracsia

Anhawster dysgu penodol


Effeithio ar sgiliau echddygol bras a manwl

Effeithio ar lafaredd weithiau

Nid yw'n gysylltiedig â gallu gwybyddol

Cysylltiad gyda niwrowyddoniaeth

Am wybodaeth bellach ewch i: [Dyspraxia at a glance – Dyspraxia Foundation](#)



Gweithgaredd - Diwrnod Glyn yn yr Ysgol

Mae Glyn yn yr un dosbarth ag Idris yn yr ysgol, ond mae gan Glyn dyspracsia

TASG:

- Darllenwch 'Diwrnod Glyn yn yr Ysgol'
- Rhestrwch gryfderau Glyn a rhai o'r pryderon sydd yn codi yma
- Nawr darllenwch y daflen 'Dyspracsia – Canllawiau Dosbarth' (ar Moodle)
- Pa gamau/ gweithgareddau fydddech chi yn eu defnyddio er mwyn helpu Glyn i wneud cynnydd yn ei ddysgu?
- Nodwch rhain yn eich nodiadau.
- Pam y dewisoch chi'r rhain yn benodol?
- Pa randdeiliaid eraill allai roi cyngor a chymorth i chi a Glyn?

Addasiad
rhesymol – y
tair
dyletswydd
cynllunio ar
gyfer plant
ag
anableddau

1. Mynediad lawn i'r cwricwlwm gan gynnwys gweithgareddau y tu allan ac ar ôl ysgol.
2. Sicrhau amgylchedd a chyfleusterau ffisegol addas.
3. Darparu gwybodaeth hygyrch.




Egwyddorion Arfer Dda

- Gosod cyfleoedd dysgu addas ac heriol
- Ymateb i anghenion dysgu amrywiol y disgyblion
- Goresgyn unrhyw rwystrau rhag dysgu ac asesu unigolion yn ogystal a grwpiau o ddysgwyr

(Spooner, 2011; Glazzard *et al.* 2010)






Cynllunio ar gyfer cynhwysiant

- Cyd-weithio gyda'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol CADY(ALNCo)
- Cynllun datblygiad unigol
- Darpariaeth person-ganolog
- Cyd-weithio aml-asiantaethol
- Cyd-weithio gyda rhieni
- Sicrhau addasiadau rhesymol
- Hyfforddiant penodol os yn berthnasol

Y broses Cynllunio Person Ganolog yng Nghymru



Adnoddau i gefnogi Technoleg 'Eye Gaze'

Mynediad (Access)
Cynhwysiant (Inclusion)
Ymrwymo (Engage)
Grymuso (Empower)



https://youtu.be/dGt_Z3lxJ24



<https://youtu.be/iQFae4BKaUI>




<https://youtu.be/Mgp8DD6Zl6c>

DARLEN PELLACH:

<http://www.inclusive.co.uk/lib/downloads/atia-eyegaze-leaflet-2015.pdf>

YSTYRIWCH





Darllen pellach

<https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig>

http://www.childrensplayadvisoryservice.org.uk/pdf_files/Publications/can_play_will_play-CPASwebsite.pdf

<https://www.actionforchildren.org.uk/what-we-do/our-work-in-wales/help-i-blant-a-phobl-ifanc-anabl-support-for-disabled-children-and-young-people/>

Eye Gaze Technology

<https://www.thesequaltrust.org.uk/eye-gaze-technology>

Rhestr Gyfeirnod

- Glazzard, J., Hughes, A., Netherwood, A. Neve, L & Stokoe, J. (2010) *Teaching Primary Special Educational Needs*, Exeter: Learning Matters Ltd.
- Packer, N. (2017) *The Teacher's Guide to SEN*. Williston: Crown House Publishing. Peer, L. &
- Reid, G. (2016) *Special Educational Needs – A Guide for Inclusive Practice* (2nd ed.). London: Sage.
- Ryder, N. (2013) *Yr ABC i Anghenion Ychwanegol*. Caerfyrddin: Canolfan Peniarth.
- Spooner, W. (2011) *The SEN Handbook for Trainee Teachers, NQTs and Teaching Assistants*. Abingdon: Routledge.